OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 493 (Cy. 59)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ffurflenni penodol a ragnodir yn Rheoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) 1982(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5) ac yn mewnosod cyfeiriadau yn y ffurflenni hynny at gredyd cynhwysol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 1982/1474 (diwygiwyd gan O.S. 1988/2198 ac O.S. 1990/1067).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 493 (Cy. 59)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2014

*Gwnaed* *4 Mawrth 2014*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *6 Mawrth 2014*

*Yn dod i rym* *31 Mawrth 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 5 o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2014.

**Diwygio ffurflenni**

**2.** Yn yr Atodlen i Reoliadau'r Llyfr Rhent (Ffurflenni Hysbysu) 1982(**3**)—

(a) yn lle paragraff 11 o Ran I (Ffurflen Llyfr Rhent ar gyfer Contract Cyfyngedig) o'r

---

(**1**) 1985 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 5, i'r graddau eu bod yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cendlaethol Cymru (Trosgwlyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Mae'r swyddogaethau hyn bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1982/1474.

Atodlen i'r Rheoliadau hyn(**1**) rhodder—
"You may be entitled to get help to pay your rent through the housing benefit scheme or through Universal Credit. Apply to your local council or to the Department for Work and Pensions for details. The Gov.uk website provides further advice: https://www.gov.uk";

(b) yn lle paragraff 13 o Ran II (Ffurflen Llyfr Rhent ar gyfer Tenantiaeth Warchodedig neu Denantiaeth Sicr) o'r Atodlen i'r Rheoliadau(**2**) rhodder—
"You may be entitled to get help to pay your rent through the housing benefit scheme or through Universal Credit. Apply to your local council or to the Department for Work and Pensions for details. The Gov.uk website provides further advice: https://www.gov.uk";

(c) yn lle paragraff 11 o Ran III (Ffurflen Llyfr Rhent ar gyfer Tenantiaeth o dan Ddeddf Rhent (Amaethyddiaeth) 1976)(**3**) o'r Atodlen i'r Rheoliadau rhodder—
"You may be entitled to get help to pay your rent through the housing benefit scheme or through Universal Credit. Apply to your local council or to the Department for Work and Pensions for details. The Gov.uk website provides further advice: https://www.gov.uk"; a

(d) yn lle paragraff 8 o Ran IV (Ffurflen Llyfr Rhent ar gyfer Tenantiaethau Sicr neu Feddianniaeth Amaethyddol Sicr)(**4**) o'r Atodlen i'r Rheoliadaurhodder—
"You may be entitled to get help to pay your rent through the housing benefit scheme or through Universal Credit. Apply to your local council or to the Department for Work and Pensions for details. The Gov.uk website provides further advice: https://www.gov.uk".

(**1**) Amnewidwyd paragraff 11 gan O.S. 1988/2198 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1990/1067.
(**2**) Amnewidiwyd paragraff 13 gan O.S. 1988/2198 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1990/1067.
(**3**) Amnewidiwyd paragraff 11 gan O.S. 1988/2198 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1990/1067.
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 8 gan O.S. 1988/2198 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1990/1067.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru.

4 Mawrth 2014